Emailed to Subscribers of the
School Health Research Network (SHRN) E-list.
Don't want to receive it? Click here

View this email in your browser

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION
THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK
shrn.org.uk

# e-newyddion Ysgol Gynradd SHRN
# SHRN Primary School e-news



# Croeso i e-newsyddion Ysgol Gynradd SHRN am Hydref 2026 / Welcome to the SHRN Primary School e-news for October 2026

## Cynnwys


1. **Nodyn Atgoffa am Gasgliad Data Ysgolion Cynradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion.**
2. **Recordiad Gweminar y Rhwydwaith: Dealltwriaeth o Ddata Cenedlaethol 2025 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion – Beth mae pobl ifanc yng Nghymru yn ei ddweud wrthon ni am eu hiechyd a'u lles?**
3. **Mae recordiad o gweminar SHRN bellach ar gael: Cipolwg ar Brydau Ysgol: Yr hyn y mae Dysgwyr Ysgol Gynradd yn ei ddewis, yn ei fwyta, ac yn ei adael – Dealltwriaeth gan astudiaeth RISE.**
4. **Blog SHRN: Beth Gall Clwstwr Ysgolion Aberdâr Ei Ddysgu i Ni am Ddefnyddio Data SHRN.**
5. **Blog DECIPHer: Sut mae'r Dull Ysgol Gyfan wedi cael ei dderbyn mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion?**
6. **Mae Data Newydd Cymru yn Dangos Parhad Yn Gostwng Llawer mewn Vaping Rheolaidd ymhlith Pobl Ifanc.**
7. **Gweminar sy'n rhad ac am ddim: A allai fod yn Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)? - Beth mae'r ymchwil ddiweddaraf yn ei ddweud wrthon ni am ADHD mewn plant ysgol gynradd.**


## Contents


1. **SHRN Primary School Data Collection Reminder.**
2. **SHRN Webinar Recording: SHRN 2025 National Data Insights-What Do Young People in Wales Tell Us About Their Health and Well-being?**

3. **SHRN Webinar Recording: A Snapshot of School Meals: What Primary School Learners Choose, Eat, and Leave Behind – Insights from the RISE Study.**
4. **SHRN Blog: From Insight to Action: What the Aberdare Schools Cluster Can Teach Us About Using SHRN Data.**
5. **DECIPHer Blog: How Has the Whole School Approach Been Received in Special Schools and Pupil Referral Units?**
6. **New SHRN Data Shows Continued Decline in Regular Vaping Among Young People.**
7. **Free Webinar: Could it be ADHD? - What the latest research tells us about ADHD in primary school children.**

**Mae'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion (SHRN)** yn bartneriaeth ymchwil-polisi-ymarfer rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Phrifysgol Caerdydd. Nod SHRN yw gwella iechyd a lles pobl ifanc yng Nghymru trwy weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da ar gyfer gwella iechyd a lles.

**The School Health Research Network (SHRN)** is a research-policy-practice partnership between Welsh Government, Public Health Wales, and Cardiff University. SHRN aims to improve children and young people's health and well-being in Wales by working with both primary and secondary schools to generate and use good quality evidence for health and well-being improvement.

English Language Version

Fersiwn Gymraeg

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Casglu Data 2026 | 2026 Data Collection

## Nodyn Atgoffa am Gasgliad Data Ysgolion Cynradd y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion

Atgoffir ysgolion sydd wedi'u cofrestru i gymryd rhan yng **Nghasgliad Data Ysgolion Cynradd 2026** y Rhwydwaith fod y data’n parhau i gael ei gasglu tan **ddydd Gwener 18 Rhagfyr 2026.**

**Mae Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith a'r Holiadur Amgylchedd Ysgol** ar gael i ysgolion sy'n cymryd rhan a dylid eu cwblhau cyn y dyddiad cau.

Mae arolwg y dysgwyr yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar iechyd a lles plant, tra bod yr Holiadur Amgylchedd Ysgol yn casglu gwybodaeth am bolisïau ac arferion ysgolion, gan helpu i roi cyd-destun pwysig i ganfyddiadau ysgolion.

Ar ôl casglu’r data, bydd yr ysgolion sy'n cymryd rhan yn derbyn adroddiad ysgol sydd wedi'i deilwra, a fydd yn eu galluogi i ystyried eu canlyniadau a chymharu’r canfyddiadau â data cenedlaethol. Mae cwblhau arolwg y dysgwyr a'r Holiadur Amgylchedd Ysgol yn helpu i sicrhau bod ysgolion yn cael y darlun llawn o iechyd a lles yn eu cymuned ysgol.

Anogir ysgolion nad ydyn nhw wedi cwblhau eu casgliad data eto i wneud hynny cyn **3.30pm ddydd Gwener 18 Rhagfyr 2026.**

Am gefnogaeth neu gymorth i gyrchu deunyddiau’r arolwg, cysylltwch â thîm y Rhwydwaith. I ddysgu rhagor am sut mae ysgolion yn defnyddio

canfyddiadau’r Rhwydwaith yn sail i ymarfer, **ewch i wefan y Rhwydwaith** a phori drwy’r **astudiaethau achos ysgolion.**

## Recordiad Gweminar y Rhwydwaith: Dealltwriaeth o Ddata Cenedlaethol 2025 y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion – Beth mae pobl ifanc yng Nghymru yn ei ddweud wrthon ni am eu hiechyd a'u lles?



Mae recordiad o weminar Dealltwriaeth o Ddata Cenedlaethol Ysgolion Uwchradd 2025 y Rhwydwaith bellach ar gael i'w wylio ar alw. Mae'r sesiwn yn rhannu’r prif ganfyddiadau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg o Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr 2025 y Rhwydwaith, ochr yn ochr ag enghreifftiau ymarferol o sut y gall ysgolion ddefnyddio data’r Rhwydwaith yn sail i gamau gweithredu a gwelliant.

**Gwyliwch y recordiad yma.**




Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

## Mae recordiad o gweminar SHRN bellach ar gael: Cipolwg ar Brydau Ysgol: Yr hyn y mae Dysgwyr Ysgol Gynradd yn ei ddewis, yn ei fwyta, ac yn ei adael – Dealltwriaeth gan astudiaeth RISE

A wnaethoch chi golli ein gweminar SHRN diweddar a oedd yn edrych ar beth mae plant ysgol gynradd yn dewis, bwyta a gadael ar ôl amser cinio? Mae'r recordiad bellach ar gael i'w wylio.

Gan dynnu ar ganfyddiadau o astudiaeth **RISE (Lleihau Anghydraddoldebau mewn Amgylcheddau Bwyd Ysgolion)**, mae Dr Rochelle Embling (Iechyd Cyhoeddus Cymru) yn rhannu gwybodaeth newydd am brofiadau plant yn ystod amser cinio, a'r hyn y maen nhw'n ei olygu o ran maeth, nifer y disgyblion sy'n cael prydau ysgol, a'r polisi Prydau Ysgol am ddim i Holl Blant Ysgolion Cynradd.

Gwyliwch y recordiad **yma.**

I gael rhagor o wybodaeth am Astudiaeth RISE, ewch i **dudalen we Astudiaeth RISE.**

## Blog SHRN: Beth Gall Clwstwr Ysgolion Aberdâr Ei Ddysgu i Ni am Ddefnyddio Data SHRN



Yn y blog hwn, mae Maria Boffey, Rheolwr Materion Allanol a Cyfnewid Gwybodaeth SHRN, yn myfyrio ar astudiaeth achos ddiweddar o glwstwr ysgolion Aberdâr, gan archwilio sut y defnyddiodd ysgolion ddata SHRN, tystiolaeth leol a Chymuned Ymarfer i nodi blaenoriaethau, meithrin dealltwriaeth gyffredin a chefnogi gwelliannau i iechyd a lles.

[Darllenwch fwy]




## Blog DECIPHer: Sut mae'r Dull Ysgol Gyfan wedi cael ei dderbyn mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion?

Mae blog diweddar gan DECIPHer yn tynnu sylw at sut y defnyddiwyd

gweithgareddau mapio creadigol gyda dysgwyr mewn ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion i ddarganfod beth sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn derbyn cefnogaeth yn yr ysgol. Yn rhan o gwerthusiad y Dull Ysgol Gyfan er budd Iechyd Meddwl a Llesiant, dysgodd y prosiect fod ystafelloedd dosbarth, staff dibynadwy, cyfeillgarwch a chyfleoedd i fod yn yr awyr agored oll yn agweddau pwysig ar brofiadau ysgol nifer o ddysgwyr.

**Darllenwch ragor »**

## Mae Data Newydd Cymru yn Dangos Parhad Yn Gostwng Llawer mewn Vaping Rheolaidd ymhlith Pobl Ifanc



Mae canfyddiadau newydd a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos bod mwy na 3,000 o bobl ifanc yn Nghymru yn llai tebyg i adrodd am vaping rheolaidd o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnig tystiolaeth gyfrinachol bod ymdrechion i leihau vaping ymhlith plant a phobl ifanc efallai yn bod yn effeithiol, tra'n pwysleisio pwysigrwydd parhau gyda gwaith atal a addysg mewn ysgolion a chymunedau.

Darllenwch y datganiad newyddion llawn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru **yma.**

Gellir dod o hyd i'r adroddiad llawn **yma.**




# Gweminar sy'n rhad ac am ddim: A allai fod yn Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD)? - Beth mae'r ymchwil ddiweddaraf yn ei ddweud wrthon ni am ADHD mewn plant ysgol gynradd

Ymunwch â **Chanolfan Wolfson er Iechyd Meddwl Pobl Ifanc** ym **Mhrifysgol Caerdydd** am weminar am ddim sy'n trafod yr ymchwil ddiweddaraf ar ADHD mewn plant oedran ysgol gynradd.

**9 Rhagfyr 2026 | 4:00pm tan 5:00pm | Ar-lein (Microsoft Teams)**

Mae ADHD yn effeithio ar tua un o bob 20 o blant a phobl ifanc, ond mae ein hymwybyddiaeth a'n dealltwriaeth o'r cyflwr yn datblygu o hyd. Bydd y weminar hon yn edrych ar y dystiolaeth ddiweddaraf am ADHD mewn plant, gan gynnwys yr arwyddion a'r symptomau cynnar mewn merched a bechgyn, a pham mae cydnabod y gwahaniaethau hyn yn bwysig er mwyn adnabod y cyflwr a chefnogi mewn da bryd.

Bydd Dr Joanna Martin yn rhannu canfyddiadau newydd o Gymru ar arwyddion cynnar ADHD mewn merched a bechgyn, yn trafod gwahaniaethau yn y rhywiau o ran sut mae ADHD yn ymddangos, ac yn cyflwyno offeryn asesu newydd sy'n cynnwys y rhywiau.

Mae'r weminar yn arbennig o berthnasol i rieni a gofalwyr plant y mae ADHD wedi cael ei gadarnhau neu ei amau, er bod croeso i unrhyw un sydd

â diddordeb yn y pwnc fynychu. Bydd cyfle i ofyn cwestiynau yn dilyn y cyflwyniad, a bydd recordiad o'r sesiwn ar gael ar YouTube.

Cofrestru ar Teams: **https://bit.ly/wcadhdwebinar**

**I ddysgu rhagor, ewch i: Child Development UK** neu cysylltwch â **Dr Joanna Martin** drwy e-bostio **martinjm1@caerdydd.ac.uk .**

English Language Version

Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

Casglu Data 2026 | 2026 Data Collection

## SHRN Primary School Data Collection Reminder

Schools registered to take part in the **2026 SHRN Primary School Data Collection** are reminded that data collection remains open until **Friday 18 December 2026.**

**The SHRN Student Health and Well-being  Survey and The School Environment Questionnaire (SEQ)** are available to participating schools and should be completed before the closing date.

The learner survey provides valuable insight into children's health and well-being , while the SEQ captures information about school policies and practices, helping to provide important context for school findings.

Following data collection, participating schools will receive a tailored school report, enabling them to explore their results and compare findings with national data. Completing both the learner survey and the SEQ helps ensure schools receive the fullest possible picture of health and well-being  within their school community.

Schools that have not yet completed their data collection are encouraged to do so before **3.30pm on Friday 18 December 2026.**

For support or assistance accessing survey materials, please contact the SHRN team. To learn more about how schools are using SHRN findings to inform practice, visit the **SHRN website** and explore our school **case studies.**

## SHRN Webinar Recording: SHRN 2025 National Data Insights- What Do Young People in Wales Tell Us About Their Health and Well-being ?



The recording of the SHRN 2025 Secondary School National Data Insights Webinar is now available to watch on demand. The session shares key findings and emerging trends from The 2025 SHRN Student Health and Well-being Survey in Secondary Schools, alongside practical examples of how schools can use SHRN data to inform action and improvement.

**Watch the recording here.**




Y RHWYDWAITH YMCHWIL IECHYD MEWN YSGOLION

THE SCHOOL HEALTH RESEARCH NETWORK

## SHRN Webinar Recording Available: A Snapshot Of School Meals: What Primary School Learners Choose, Eat, and Leave Behind — Insights from the RISE Study

Missed our recent SHRN webinar exploring what primary school children really choose, eat, and leave behind at lunchtime? The recording is now available to watch.

Drawing on findings from the **RISE (Reducing Inequalities in School Food Environments) Study**, Dr Rochelle Embling (Public Health Wales) shares new insights into children's lunchtime experiences and what they mean for nutrition, school meal uptake, and Universal Primary Free School Meal (UPFSM) policy.

Watch the recording **here.**

For more information about the RISE Study, visit the **RISE Study webpage.**

# SHRN Blog: From Insight to Action: What the Aberdare Schools Cluster Can Teach Us About Using SHRN Data



In this blog, Maria Boffey, SHRN External Affairs and Knowledge Exchange Manager, reflects on a recent case study from the Aberdare schools cluster, exploring how schools used SHRN data, local evidence and a Community of Practice to identify priorities, build shared understanding and support health and well-being improvement.

[Read more](#) »




# DECIPHer Blog: How Has The Whole School Approach Been Received in Special Schools and Pupil Referral Units?

A recent DECIPHer blog highlights how creative mapping activities were

used with learners in special schools and pupil referral units (PRUs) to explore what helps them feel safe, supported and happy at school. As part of the evaluation of the Whole School Approach to Mental Health and Wellbeing, the project found that classrooms, trusted staff, friendships and opportunities to be outdoors were important aspects of many learners' school experiences

**Read More »**

## New Wales Data Shows Continued Decline In Regular Vaping Among Young People



New findings published by Public Health Wales show that more than 3,000 fewer young people in Wales are reporting regular vaping compared with previous years.

The findings provide encouraging evidence that efforts to reduce vaping among children and young people may be having an impact, while highlighting the importance of continuing prevention and education work in schools and communities.

Read the full Public Health Wales news release **here.**

The full report can be found **here.**




## Free Webinar: Could it be ADHD? - What the latest research tells us about ADHD in primary school children

Join the **Wolfson Centre for Young People's Mental Health** at **Cardiff University** for a free webinar exploring the latest research on ADHD in primary school-aged children.

**9 December 2026 | 4:00pm to 5:00pm | Online (Microsoft Teams)**

ADHD affects around one in 20 children and young people, yet awareness and understanding of the condition continues to evolve. This webinar will explore the latest evidence on ADHD in children, including early signs and symptoms in both girls and boys, and why recognising these differences is important for timely identification and support.

Dr Joanna Martin will share new findings from Wales on early signs of ADHD in girls and boys, discuss gender differences in how ADHD presents, and introduce a new gender-inclusive assessment tool.

The webinar is particularly relevant for parents and carers of children with confirmed or suspected ADHD, although anyone with an interest in the topic is welcome to attend. There will be an opportunity to ask questions following the presentation, and a recording of the session will be made available on YouTube.

**Register on Teams**: **https://bit.ly/wcadhdwebinar**

**To find out more out more visit: [Child Development UK](#)** or contact **[Dr Joanna Martin](#)** at **[martinjm1@cardiff.ac.uk.](#)**



## Dysgwch fwy am ein gwaith / Learn more about our work

Cyrchwch ein llyfryn gwybodaeth, porwch drwy ein hadroddiadau, darllenwch am ein llwyddiannau a'n heffeithiau a llawer mwy...

[Dysgu mwy »](#)

Access our information brochure, browse our reports, read about our successes and impacts and much more...

[Read more »](#)



## Cysylltwch â ni / Contact us

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu adborth am unrhyw beth yn yr e-newyddion hwn, neu SHRN ei hun, anfonwch neges e-bost at Maria Boffey, Rheolwr Cyfnewid Gwybodaeth a Materion Allanol SHRN:

[BoffeyM1@cardiff.ac.uk](#)

If you have any questions or feedback about any of the content in this e-news, or SHRN itself, please email Maria Boffey, SHRN Knowledge Exchange and External Affairs Manager:

[BoffeyM1@cardiff.ac.uk](#)

---

YouTube Website Email LinkedIn

*Copyright © 2026 School Health Research Network, All rights reserved.*

Want to change how you receive these emails?
You can update your preferences or unsubscribe from this list.

INTUIT mailchimp